Lloyd & Gravell Ltd

## Teitl swydd:

# Syrfewr Meintiau

## Rôl:

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion i ymuno â'n Tîm Masnachol. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod gweinyddu dyddiol contractau adeiladu presennol a dyfodol ar draws y busnes yn cael ei gyflawni yn unol â thargedau'r contractau. Bydd yn ofynnol iddynt gyfrannu at gyflawni amcanion/targedau'r busnes yn gyffredinol a thimau masnachol a gwella parhaus ar draws y busnes. Dylai ceiswyr fod yn gymwys i o leiaf Lefel HNC mewn Rheoli Adeiladu, â phrofiad da iawn o reoli contractau yn ogystal â phrofiad o ddefnyddio contractau a gweithdrefnau NEC a JCT. Yn briodol, bydd y cwmni yn cefnogi'r cyfle i barhau gyda addysg ac ymrwymiad proffesiynol pellach. Mae trwydded yrru llawn lân yn ofynnol. Dilynwch y ddolen hon i weld proffil y swydd.

## Pwy ydyn ni a'r hyn a wnawn ni:

Rydym yn gwmni teuluol sydd â gwreiddiau Cymreig wrth galon popeth a wnawn. Fel un o gwmniau adeiladu blaenllaw Cymru a chontractwr sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, rydym yn adeiladu, adnewyddu ac atgyweirio adeiladau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae pobl yn adnabod Lloyd & Gravell am lawer mwy nac ansawdd ein gwaith yn unig. Mae'n nhw'n ein hadnabod ni am bwy ydyn ni a beth rydym ni'n ei wneud i sicrhau fod eu prosiectau yn llwyddiant. Er ein bod yn codi adeiladau rhagorol, rydym hefyd yn gweithio'n galed i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, yn cyfrannu'n weithredol i gymunedau ac yn gadael buddion parhaus yn ogystal ag adeilad rhagorol.

## Gweithio i Lloyd & Gravell

Rydym am i bobl fwynhau gweithio i'n cwmni a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod yn aelod gwerthfawr o dîm a gwybod i sicrwydd bod y cwmni bob amser yn meddwl am eu lles. I gefnogi hyn, mae ein telerau ac amodau cyflogaeth yn gystadleuol.

**Rhan o athroniaeth ein cwmni yw Hyfforddi i Gadw Mae hyn yn cynnwys:**

- Pecynnau recriwtio a chadw cystadleuol
- Rhaglen hyfforddi ar draws y cwmni
- Cyfleoedd dilyniant gyrfa

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo eu bod yn bodloni gofynion ein swyddi gwag ni waeth beth fo'u hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd. a mynegiant rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal, gwerthfawrogi amrywiaeth a mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac yn ymdrechu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

## Y cam nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV at Andrea Gravell, 43 Myrtle Hill, Ponthenri, Llanelli, Caerfyrddin. SA15 5PD neu e-bostiwch andrea@lloydandgravell.co.uk Am ragor o wybodaeth neu drafodaeth anffurfiol ynghylch y swydd, cysylltwch â Robert Charles ar 01269 861160 neu drwy e-bost robert@lloydandgravell.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer derbyn CV yw 12:00 y.p., 7fed o Fai, 2026. Trefnwyd cyfweliadau ar gyfer y 15fed o Fai, 2026.